Dyfarnu £11miliwn gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur i rywogaethau mewn perygl a safleoedd



Mae blodau'r gwynt i'w cael yn aml mewn coetiroedd hynafol.

Mae prosiectau sy'n gwarchod y gylfinir, glaswelltir a storfeydd mawn gorgors ymhlith y rhai sy'n elwa o gyhoeddiad rhaglen grantiau gwerth £11miliwn sy'n cael ei wneud heddiw.

Nod y Gronfa Rhwydweithiau Natur yw cryfhau gwytnwch safleoedd tir a morol gwarchodedig Cymru, cefnogi adferiad byd natur ac annog cymunedau i gymryd rhan mewn cadwraeth natur.

Mae naw prosiect sy'n gofalu am safleoedd sy'n gartref i rywogaethau prin ac mewn perygl yn cael arian heddiw.

Cloddiwr yn gweithio ar ardal fawnog

Adfer mawndiroedd. Llun: Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ucheldiroedd amrywiol, cysylltiedig a gwydn

Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn cyflwyno prosiect Prosiect Uwch Conwy i adfer tirwedd ucheldir amrywiol a gwydn sy'n hygyrch i bobl.

Ardaloedd Morol Gwarchodedig Llewyrchus

Bydd gwaith Cyflwyno Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn Partneriaeth Cyngor Gwynedd yn gwella gwytnwch pum Ardal Forol Warchodedig fawr trwy gyfyngu ar weithgarwch niweidiol.

Gylfinir mewn cae gwair

Mae gylfiniriaid mewn trafferth, gyda'r boblogaeth yn gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Adferiad y gylfinir

Mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt yn cyflwyno'r prosiect Cysylltiadau Gylfinir Cymru, Cysylltu Gylfinir Cymru er mwyn arbed y gylfinir sy'n nythu rhag difodiant.

Monitro poblogaethau adar môr a dolffiniaid

Bydd prosiect Rhywogaethau Dangosydd Morol Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn canolbwyntio ar rywogaethau adar môr a dolffiniaid trwyn potel oddi ar arfordir gorllewin a chanolbarth Cymru.

Plant o amgylch hambwrdd wrth ymyl glan yr afon, yn chwilio am rywogaethau o anifeiliaid a thrychfilod

Disgyblion ysgol yn dysgu am fywyd yn yr afon Irfon

Bioamrywiaeth d?r croyw

Mae prosiect dalgylch Afon Irfon yr Ymddiriedolaeth Cynefinoedd D?r Croyw yn ceisio cynyddu gwytnwch y rhwydwaith bioamrywiaeth d?r croyw ym Mhowys.

Glaswelltiroedd gwydn

Bydd prosiect Glaswelltiroedd Gwydn/Rhwydweithiau Cymru Plantlife International yn adfer glaswelltir a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Ffotograff tanddwr o forgi

Monitro rhywogaethau siarcod a physgod.

Cadwraeth forol

Mae Cymdeithas S?olegol Llundain (ZSL) yn cynnal Prosiect SIARC Cam 2 gyda phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru i lenwi bylchau data critigol ar gyfer chwe rhywogaeth o siarc, morgath a'r morgath.

Gwelliannau bioamrywiaeth

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cyflwyno prosiect Adfer y Dirwedd Ddawan i gyflwyno ystod o welliannau bioamrywiaeth ar hyd yr Afon Ddawan a'i llednentydd.

Lleden ar draeth. Tynnir y llun yn rhannol o dan y d?r, a gellir gweld pobl o bell yn sefyll ar y traeth

Lleden yn cuddio yn y tywod ar draeth.

Cysylltu â natur

Bydd Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn cynnwys pobl leol, ysgolion a chymunedau wrth greu rhwydweithiau o fannau naturiol gwydn yng Ngwent.

Cefnogi adfywiad natur

Ariennir y Gronfa Rhwydweithiau Natur gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Dywedodd Julie James, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd: "Bydd y cyllid hwn yn helpu i hwyluso'r dull tîm Cymru sydd ei angen i wella cyflwr a gwydnwch ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig yn ogystal â chreu rhwydweithiau o bobl sy'n ymgysylltu'n weithredol â byd natur."

Gwarchod yr amgylchedd yn flaenoriaeth

Dywedodd Andrew White, Cyfarwyddwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru: "Mae gwarchod yr amgylchedd yn flaenoriaeth i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Dyma pam rydym yn cefnogi mentrau sy'n ein helpu i gyrraedd ein targedau cenedlaethol i adfer byd natur a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar dreftadaeth.

"Trwy bartneriaethau fel hyn, rydym yn buddsoddi mewn gwaith sy'n helpu i atal a gwrthdroi colled a dirywiad cynefinoedd a rhywogaethau a chaniatáu i bobl gysylltu â'n treftadaeth naturiol unigryw."

Cyllid ar gyfer eich prosiect natur

Porwch ein tudalennau ariannu i gael gwybod am wneud cais am gyllid - o ba fathau o brosiectau a chostau y gallwch gael cyllid ar eu cyfer, i'r camau y mae angen i chi eu cymryd cyn i chi gyflwyno'ch cais.



efyd mewn ...

Crystal Palace Park Photo: Chris Gorman.



ojects across the UK

Cytref o huganod. Credyd: Dave Boyle



leoedd natur ledled Cymru

Arian newydd ar gael i greu coetiroedd bach yng Nghymru